



Branwen – CA5

Tasg 6: Cymharu cerddi

MÔN, YNYS

Thomas, G. (2005) *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybïe, tud 58

Y mae pobol y Tir Mawr, erioed, erioed
Wedi edrych allan dros ddyfroedd
At Ynysoedd a oedd, o’u cynefin hwy, yn weladwy
Gan ddyheu – ag ysgraffau a llongau a phontydd –
Am gael croesi drosodd;
Croesi i dorri rhyw hen unigrwydd,
Datrys rhyw hen ddirgelwch
A chreu, fel y byddwn ni’n dweud,
Gysylltiadau newydd.

A thros gerrynt ffyrnig y Fenai
Fe hwyliwyd o Arfon i Fôn
I geisio creu cyfathrach;
Ac, yn y man, fe godwyd pontydd
I gydio’r glannau dros ddyfroedd y gwahanrwydd.
Daeth Môn yn dir cyfarwydd –
Fe grewyd cysylltiadau.

Pam, felly, y mae yno
O hyd – mewn mannau cyfrin -
Ryw unigrwydd, rhyw ddirgelwch
Oedd yn hen, yn hen
Pan fu i filwyr Rhufain
Ymlafnio drwy’r Fenai i Fôn
Yn amser y Derwyddon?

Ynys Afallon

T Llew Jones Reynolds, I. (gol.) (2006) *Y Fro Eithnog, Casgliad o Gerddi
T Llew Jones*, Gwasg Gomer: Llandysul

Draw ymhell dros donnau’r môr
Mae ynys sy’n baradwys werdd,
Ei gerddi a’i choedlannau’n llawn
O flodau ac o adar cerdd.

Ni hwyliodd llong i’w thraethau hi,
Ni roddodd morwr arni droed,
Ac ni roes gwybodusion byd
Ei henw hi ar fap erioed.

Ond mae hi’n bod, mi wn yn iawn,
A blodau’r lotus yno a dyf,
Ynys Afallon! Lle ni cheir
Na churlaw mawr na chorwynt cryf.

Yno’r aeth Arthur gynt yng nghwch
Y Tylwyth Teg i wella’i glwy’,
I fyw am byth yng ngherddi’r rhos
Ymhell o sŵn rhyfeloedd mwy.

Pan fyddaf innau’n teimlo’n flin
Ac yn wangelon ambell waith,
Mi fydda’ i’n rigio sgwner dal
A mynd i’r ynys deg ar daith.

